# POLISI AMDDIFFYN PLANT AC OEDOLION AGORED I NIWED

**DATGANIAD POLISI**

Nod Theatr y Sherman yw diogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed sy'n cymryd rhan yn y Celfyddydau a bydd yn sicrhau bod ei reolwyr, staff, sefydliadau partner, contractwyr ac unrhyw wirfoddolwyr yn ymrwymo i arfer da sy'n amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed rhag niwed.  Drwy wneud hynny bydd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol ac yn ystyried arfer gorau. Yn benodol, mae'r cwmni yn cydnabod bod gan bob rheolwr, aelod o staff a gwirfoddolwr gyfrifoldebau o dan Ddeddf Plant 2004, a Deddf Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015.

Dylid darllen y Polisi hwn ochr yn ochr â dogfen "Canllawiau ar Weithio gyda Phobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed" Theatr y Sherman a gynhwysir yn y llawlyfr staff.

Y Cyfarwyddwr Gweithredol Julia Barry yw'r Arweinydd Diogelu, a'r Pennaeth Cyllid a Gweinyddol Sally Shepherd yw'r Dirprwy oni fydd yr Arweinydd Diogelu ar gael.

**Cwmpas a Ffocws y Polisi hwn**
Bydd y polisi hwn yn berthnasol i bob gweithgaredd a gynhelir gan Theatr y Sherman sy'n cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Yn ymarferol, bydd yn ymwneud â gweithgareddau yn y theatr (Theatr y Sherman), mewn ysgolion, lleoliadau cymunedol, theatrau, safleoedd awyr agored, ac yn benodol dosbarthiadau a gweithdai wythnosol, gweithgareddau gwyliau ac unrhyw ysgol neu gwrs preswyl dwys dros y penwythnos. Bydd hefyd yn berthnasol i unrhyw weithgareddau sy'n cynnwys staff Theatr y Sherman sy'n cael eu cynnal ar y cyd â Chynghorau neu bartneriaid allweddol a myfyrwyr ysgol a choleg sydd ar Leoliadau Gwaith.

**Diffiniad o Gamdriniaeth:**
Fel sefydliad rydym yn deall bod sawl math o gamdriniaeth y dylem geisio diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed rhagddi, sef

- Esgeulustod
- Cam-drin plant yn rhywiol
- Camfanteisio'n rhywiol ar blant
- Cam-drin corfforol
- Cam-drin domestig
- Cam-drin emosiynol
- Ymddygiad rhywiol niweidiol
- Bwlio
- Cam-drin ar-lein
- Anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM)
- Masnachu mewn plant a chaethwasiaeth fodern

Gellir dod o hyd i wybodaeth a chymorth pellach am adnabod a diogelu plant ac oedolion agored i niwed rhag unrhyw fath o gamdriniaeth a nodir uchod ar wefan NSPCC
https://learning.nspcc.org.uk/child-abuse-and-neglect/

**Credwn:**

- Fod gan bob plentyn,  beth bynneg ei oedran, hil, rhyw, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd yr un hawl i gael ei amddiffyn a'i ddiogelu
- Na ddylai unrhyw blentyn nac oedolyn agored i niwed brofi unrhyw fath o gamdriniaeth

**Rydym yn cydnabod:**

- Mai lles y plentyn neu oedolyn agored i niwed sydd bwysicaf
- Bod gweithio gyda'r plentyn, oedolyn agored i niwed, gofalwr, rhiant ac awdurdodau perthnasol yn bwysig er mwyn hyrwyddo ac amddiffyn lles pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

**Defnyddio Delweddau ar gyfer Lluniau/Gwefan**

Er mwyn hyrwyddo gwaith y Theatr mewn taflenni gwybodaeth ac ar y wefan mae'r Theatr, yn naturiol, yn awyddus i ddefnyddio delweddau o gyfranogwyr yn ei rhaglenni. Dylid ond gwneud hyn o fewn y canllawiau canlynol:

- Cael caniatâd ffurfiol rhieni/gofalwyr yn ysgrifenedig i ddefnyddio pob delwedd o blentyn.
- Ar gyfer pobl ifanc 16+ oed, gofynnir i'r bobl ifanc eu hunain roi eu caniatâd yn uniongyrchol hefyd;
- Bydd y caniatâd yn nodi'r defnydd penodol a wneir o unrhyw ddelwedd;
- Ni chaiff unrhyw ddelwedd amhriodol ei thynnu;
- Gofynnir am ganiatâd o'r newydd er mwyn defnyddio unrhyw ddelwedd arall
- Bydd y Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu yn monitro pob delwedd a chyfrwng sy'n defnyddio plant ac yn ymdrin â hwy'n briodol
- Pan fydd pobl ifanc yn defnyddio eiddo preifat megis ffonau symudol ac offer tynnu lluniau, dylid nodi'n glir mai ein polisi yw mai dim ond yn ystod amser egwyl benodedig y gellir defnyddio eitemau o'r fath a dylid ond tynnu lluniau o gyd-fyfyrwyr neu gyfranogwyr gweithgaredd gyda chaniatâd yr unigolyn ymlaen llaw.

**Gweithdrefnau Recriwtio, Dewis a Chontractio**

Defnyddir gweithdrefnau recriwtio, dewis a chontractio ar gyfer pob gweithiwr personél, boed yn staff neu'n gontractwr sy'n derbyn tâl neu nad ydynt yn derbyn tâl, ac mae'r swydd yn golygu cyswllt uniongyrchol â phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

**Ym mhob achos:**

- Dywedir yn glir wrth ymgeiswyr bod y swydd wedi'i heithrio o ddarpariaethau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, sy'n golygu bod yn rhaid datgan pob trosedd waeth pa mor bell yn ôl y digwyddodd. Pwysleisir fod y broses hon yn gyfrinachol.
- Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr sy'n gweithio ac yn rhyngweithio'n rheolaidd â phobl ifanc ac oedolion agored i niwed gael archwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chwblhau'r holl hyfforddiant diogelu perthnasol, cyn dechrau gweithio.
- Rhaid i ymgeiswyr ddarparu prawf adnabod a chofnodir y broses hon [nodyn: 1]
- Rhaid i ymgeiswyr ddarparu manylion o brofiad blaenorol, am dâl neu'n wirfoddol, o weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. [nodyn: 2]
- Gofynnir am ddau eirda, a bydd o leiaf un ohonynt yn cynnwys sylwadau gwybodus am brofiad yr ymgeisydd o weithio am dâl neu'n wirfoddol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.
- Caiff ymgeiswyr eu cyfweld ac ystyrir hyn yn gyfle i asesu profiad yr unigolyn o weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.
- Bydd pob penodiad parhaol am dâl yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus. [Cynhwysir rhagor o wybodaeth am Gyfnod Prawf yn y Llawlyfr Staff.]

[1] Manylion banc yr un pryd â llofnodi Contract a chwblhau ffurflen manylion y Cyflogai.

[2] Defnyddir manylion o'r ffurflenni cais a gan gyflogwyr blaenorol (nid geirdaon yr ymgeiswyr o reidrwydd).

-

**Iechyd a Diogelwch**

Rhaid i bob rheolwr, aelod o staff, gwirfoddolwr a chontractwr fod yn ymwybodol o Bolisi Iechyd a Diogelwch y cwmni a'r materion sy'n effeithio ar gynnal perfformiadau, dosbarthiadau, gweithdai a gweithgareddau eraill. [Cynhwysir pob polisi presennol yn y Llawlyfr Staff.]

Datblygwyd asesiad risg cyffredinol ar gyfer gweithgareddau Theatr Ieuenctid a chedwir golwg arno [adolygwyd ddiwethaf: Ebrill 2019] a hynny'n seiliedig ar gyflwyno dosbarthiadau, gweithdai a pherfformiadau gan diwtoriaid proffesiynol profiadol a chymwys yn y theatr ac mewn lleoliadau eraill. [gweler "Canllawiau i Weithio gyda Phobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed" yn y Llawlyfr Staff.]

Caiff unrhyw ffactorau risg lleol ychwanegol, unrhyw weithgaredd awyr agored neu sesiwn ychwanegol sy'n defnyddio fformat gwahanol eu hasesu ar wahân. [nodyn 3]. Rhennir y cyfrifoldeb rhwng y cwmni, staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr i gynnal dulliau cyfathrebu effeithiol ar faterion Iechyd a Diogelwch, er mwyn gallu asesu unrhyw risgiau ychwanegol a allai godi.

Dylai aelodau o staff nodi'n glir, bob amser, pwy sy'n gyfrifol am blant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn y theatr, yn enwedig pan rennir y cyfrifoldeb am grŵp rhwng gweithwyr o wahanol adrannau. [nodyn 4]

Rhaid i aelodau o staff annog defnyddio gwahanol rannau o'r safle yn ddiogel a gydag awdurdod a dylent arwain y ffordd. Ni chaniateir defnyddio'r ystafelloedd na'r offer yn anniogel nac yn amhriodol.

Ni chaniateir dod â chyffuriau anghyfreithlon nac/neu alcohol i'r safle [gweler y llawlyfr staff "Polisi Alcohol a Chyffuriau" i gael rhagor o fanylion, yn unol â'r amcanion trwyddedu: Diogelu Plant rhag Niwed. Mae'n rhaid hyfforddi a briffio pob aelod o staff y bar ar y polisi hwn].

Ni chaniateir smygu ar unrhyw ran o'r safle nac o fewn metr i unrhyw ddrws na ffenestr allanol.

Dylid cadw cyffuriau sydd ar bresgripsiwn allan o'r golwg ac allan o gyrraedd pobl. [nodyn 5]

**Gweithdrefnau i sicrhau bod Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed wedi'u diogelu rhag niwed**

- Dylai aelodau o'r cwmni a thiwtoriaid sy'n delio â phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed ddeall materion yn ymwneud ag ymosodiadau a cham-drin gan eu bod yn ymwneud â phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, a'r angen i weithredu mesurau er mwyn osgoi unrhyw achos o'r fath rhag digwydd fel rhan o'r prosiectau neu'r rhaglenni (gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i Ddelio ag Ymddygiad Heriol).
- Gan fod y berthynas rhwng y tiwtoriaid/actorion a'r plant yn eithaf anffurfiol mae'n bosibl y gall plentyn sydd wedi'i gam-drin rannu neu gyfeirio 'wrth fynd heibio' at wybodaeth bwysig yn ymwneud â'i les. Peidiwch â chytuno i gadw'r mater yn gyfrinach a chofiwch nodi'n glir bod yn rhaid i chi hysbysu Arweinydd Diogelu Theatr Sherman am yr hyn y mae'r plentyn wedi'i ddweud.

---

[3] Gan y tîm uwch-reolwyr (SMT) priodol.
[4] Theatr Ieuenctid: Arweinydd Theatr Ieuenctid a Rheolwr Ymgysylltu Creadigol. Sioeau'r Nadolig: Hebryngwyr.
[5] Gweler y Polisi alcohol a chyffuriau yn y **Llawlyfr Staff.**

- Os bydd plentyn yn dweud rhywbeth sy'n gwneud i chi amau ei fod yn cael ei gam-drin, rhaid i chi hysbysu'r Arweinydd Diogelu am hynny (gweler 3.17 Gweithdrefn beth i'w wneud os credwch fod plentyn neu oedolyn agored i niwed mewn perygl).
- Os bydd aelod o'r cwmni neu diwtor yn canfod ei hun neu'r plentyn mewn sefyllfa fygythiol dylent hysbysu'r Arweinydd Diogelu neu'r Dirprwy Diogelu ar unwaith. Os na fydd yr un ohonynt ar gael, a'ch bod yn pryderu am ddiogelwch uniongyrchol person ifanc, dilynwch y camau yn 3.17 "gweithdrefn beth i'w wneud os credwch fod plentyn neu oedolyn agored i niwed mewn perygl" - a ffonio 101 ar gyfer yr Heddlu fel y dewis olaf.

**Hyfforddiant**

Cynigir canllawiau ar weithredu'r polisi hwn yn ystod y broses sefydlu i bob aelod o staff sy'n gweithio neu'n gyfrifol am oruchwylio'r broses o weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Cynigir hyfforddiant i bob aelod o staff perthnasol drwy'r adnodd ar-lein Child Protection Company ( http://www.childprotectioncompany.com) Gellir gofyn cwestiynau am y polisi hwn i'r Arweinydd Diogelu.

Caiff y polisi hwn ei adolygu a'i fonitro gan yr Ymddiriedolwyr yn unol ag Amserlen yr Awdurdod Dirprwyedig.

**Atodiadau neu ychwanegiadau i'r polisi amddiffyn plant**

Polisi Diogelu Digidol
Canllawiau i Weithio gyda Phobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed
Beth i'w Wneud Os Credwch Fod Plentyn Mewn Perygl
Llawlyfr Staff

**Manylion cyswllt**

Arweinydd Diogelu
Julia Barry
E-bost/Ffôn – Julia.barry@shermantheatre.co.uk / 02920 646979 / 07887 600081

Dirprwy Swyddog
Diogelu Sally
Shepherd
E-bost/Ffôn – sally.shepherd@shermantheatre.co.uk / 029020 646949

**Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt perthnasol pellach yma:**

http://www.childreninwales.org.uk/resources/safeguarding/

Rydym yn ymrwymedig i adolygu ein polisi yn flynyddol. Adolygwyd y polisi ddiwethaf ar 12 Mehefin 2023

Llofnodwyd …J. Barry………………

……………………..

Dyddiad yr adolygiad nesaf: Mehefin 2024
Dyddiad diweddaru: 12/06/2023